**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

9 Mai 2024

Annwyl Peredur,

Craffu ar y gyllideb ddrafft

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mawrth 2024 parthed gwaith craffu pwyllgorau'r Senedd ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried eich llythyr ar 15 Ebrill 2024, a chytunwyd i wneud rhai sylwadau a allai fod yn ddefnyddiol i'ch Pwyllgor eu hystyried.

Yn eich llythyr, rydych yn cyfeirio at ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chyllidebau drafft. Rhwystr penodol yr ydym wedi dod ar ei draws fel rhan o'n gwaith craffu yw'r ffaith nad yw gwariant ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder wedi'i ddadgyfuno o fewn unrhyw un o'r cyllidebau drafft yr ydym wedi'u hystyried. Mae hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i nodi newidiadau mewn gwariant arfaethedig ar weithgarwch o'r fath, ac rydym wedi galw ar Lywodraeth Cymru i weithio tuag at ddadgyfuno'r gwariant hwn yng nghyllidebau'r dyfodol.

Rydym wedi nodi ymdrechion Llywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd allai wella lefel y manylion y mae'n eu darparu ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder yn ei chyllidebau drafft (gweler yr ymrwymiad a roddwyd ym mis Rhagfyr 2022 a'r dystiolaeth a roddwyd ym mis Chwefror eleni). At hynny, rydym wedi cydnabod yr anawsterau y mae'n eu hwynebu wrth gyflwyno'r wybodaeth hon yn absenoldeb unrhyw un o aelodau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â chyfiawnder, a phrif grŵp gwariant penodedig ar gyfer y materion hynny. Byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru ar y materion hyn yn ôl yr angen.

Mae'n bwysig nodi bod ein hystyriaeth o gyllidebau drafft blaenorol hefyd wedi bod yn heriol, oherwydd bod dau aelod o Lywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â chyfiawnder: y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ar y pryd, a'r Gweinidog Cyfiawnder

Cymdeithasol a'r Prif Chwip, ar y pryd. Mae'r cyfrifoldeb am faterion o'r fath bellach yn nwylo tri aelod o Lywodraeth Cymru – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Cwnsler Cyffredinol.

Mae effaith y trefniant newydd hwn ar ein hystyriaeth o gyllidebau drafft a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol yn aneglur. Fodd bynnag, ein sylw cychwynnol yw y gallai hynny lesteirio unrhyw ymdrechion a wneir gan Lywodraeth Cymru i wella lefel y manylder y gall ei darparu ar wariant arfaethedig, ar weithgarwch sy'n ymwneud â chyfiawnder, ac yn sgil hynny gallai lesteirio gallu'r Pwyllgor i gynnal gwaith craffu ar wariant o'r fath. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio addasu i'r trefniant newydd a allai, er enghraifft, gynnwys cynnal gwaith craffu ar agweddau ar y gyllideb ar y cyd â'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, lle bo hynny'n briodol a phan fo amser yn caniatáu.

O ran prosesau'r gyllideb yn fwy cyffredinol, rydym yn croesawu'r ymgynghori a'r ymgysylltu a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cyllid. Defnyddiwyd y dystiolaeth a gasglwyd gennym i lywio ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft a pharatoi ein hadroddiad terfynol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at sylw Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

S. Murphy

Sarah Murphy
Cadeirydd